# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 1 Tachwedd 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gweldig

5 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ganiatáu i aelodau'r gymuned anabledd dysgu gael rhagor o ymreolaeth dros eu haddysg a'u hyfforddiant? (WAQ50556)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Hutt):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod fod angen i ddysgwyr anabl, yn ogystal â phob dysgwr arall, gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd er mwyn gwneud penderfyniadau hyddysg ar eu haddysg neu eu hyfforddiant yn y dyfodol. Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaeth diduedd sy'n cynnig arweiniad i bobl o bob oed, ac i ddysgwyr anabl yn arbennig mae gan gwmnïau Gyrfa Cymru gynghorwyr sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n arbenigo mewn gweithio gyda dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Mae eu rôl yn cynnwys nodi cyfleoedd dysgu priodol, ystyried anghenion dysgu yr unigolyn a sicrhau bod dymuniadau'r dysgwr yn cael eu hystyried cyn belled â phosibl wrth negodi darpariaeth ddysgu addas. Gallant hefyd weithredu fel gwasanaeth i atgyfeirio dysgwyr anabl at wasanaethau a ddarperir gan Gynghorwyr Cyflogaeth i'r Anabl y Ganolfan Byd Gwaith ac asiantaethau gwirfoddol eraill sy'n rhan o'r mentrau cyflogaeth dan gymorth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cadw mewn cof efallai y bydd yn ofynnol i amgylcheddau dysgu prif ffrwd wneud addasiadau fel y gall dysgwyr anabl eu defnyddio. Rhoddir cyllid i ddarparwyr, h.y. Sefydliadau Addysg Bellach, darparwyr Dysgu seiliedig ar Waith a cholegau preswyl arbenigol, er mwyn eu galluogi i wneud addasiadau i'r amgylchedd dysgu ac, mewn rhai achosion, i fynd i'r afael â'r anghenion dysgwyr unigol a aseswyd. Pan asesir bod angen cymorth penodol ar ddysgwr, ceir sawl ffrwd ariannu wahanol y gall y darparwr dysgu eu defnyddio i wneud yr addasiadau priodol i'r rhaglen ddysgu.

Mae'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol sy'n darparu cyllid ar gyfer dysgu ôl-16 (heb gynnwys Addysg Uwch) yn cydnabod y costau ychwanegol i ddarparwyr addysg bellach wrth iddynt gyflwyno darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu. Gall sefydliadau wneud cais am gyllid atodol er mwyn galluogi dysgwyr sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu i gymryd rhan mewn amgylchedd dysgu prif ffrwd yn yr un modd â dysgwyr eraill a chyda'r un cyfleoedd. Bwriad cyllid atodol yw helpu gyda chost cymorth pobl ychwanegol, megis pobl sy'n cymryd nodiadau neu diwtoriaid arbenigol a phrynu offer arbenigol megis meddalwedd Braille a dyslecsia. Yn 2006/07 dyrannwyd dros £5m drwy gyllid atodol. Mae Cymorth Dysgu Ychwanegol ar gael i ddarparwyr Dysgu seiliedig ar Waith yn yr un modd a chytunwyd ar £55.5K i ddysgwyr y nodwyd bod angen y fath gymorth arnynt.

Mae llawer o ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu neu angehnion sgiliau sylfaenol yn gorfod cael amgylchedd dysgu penodol. Mae'r System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol yn cydnabod costau ychwanegol cyflwyno'r fath ddarpariaeth drwy bwysoliadau ychwanegol ar gyfer rhaglenni penodol, megis Sgiliau Cyfathrebu a Sgiliau Byw yn Annibynnol. Yn 2006/07 roedd £29.8m ar gael i Sefydliadau Addysg Bellach at y diben hwn.

Pan fydd dysgwr o dan 25 oed wedi cael asesiad amlbroffesiwn sy'n argymell bod angen darpariaeth breswyl arbenigol arno er mwyn cael addysg bellach, yna bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ariannu, yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ar y cyd â'r gwasanaethau cymdeithasol a'r byrddau iechyd lleol, leoliad yn y coleg y tybir sydd fwyaf addas ar gyfer angen penodol y dysgwr hwnnw. Yn 2006/07 dyrannodd Llywodraeth y Cynulliad £5.8m ar gyfer darpariaeth breswyl arbenigol o'r fath.

Sicrhawyd bod arian cyfalaf ar gael i Sefydliadau Addysg Bellach er mwyn eu galluogi i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Dyrannwyd hyn i'r Sefydliadau Addysg Bellach drwy'r ddwy gyfran ganlynol:

- 2004/05 - £6m;
- 2006/07 - £3m.

Yn ystod y blynyddoedd hyn, ac fel mewn blynyddoedd eraill, roedd gan Sefydliadau Addysg Bellach yr hawl i ddefnyddio'r dyraniad o Arian Cyfalaf Cyffredinol a roddwyd yn 2004/05 a'r dyraniad o Arian

Cynnal Cyfalaf a roddwyd yn 2006/07 i fwrw ymlaen â'r gwaith o gwblhau gwaith o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd.

Mae'r uchod yn dangos sut, yn unol ag 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith', a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2006, y defnyddir arian er mwyn helpu i sicrhau bod gan bob dysgwr, waeth beth fo'u hanabledd, yr hawl i gael addysg a chyfleoedd dysgu sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol.

**Lesley Griffiths (Wrecsam):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i barhau â'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar ôl mis Mawrth 2008? (WAQ50580)

**Jane Hutt:** Byddwn yn parhau i hyrwyddo rhianta cadarnhaol ac i ddatblygu ymhellach y polisïau a'r gwasanaethau sy'n cefnogi pobl sy'n magu plant. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys dosbarthu llyfrynnau i bob rhiant newydd yng Nghymru ar reoli ymddygiad eu plant ac ar ddewisiadau amgen i ddisgyblu corfforol. Bydd y cymorth hwn sydd wedi'i dargedu yn parhau i fod ar gael o dan y cynlluniau grant Cymorth a Dechrau'n Deg.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfanswm yr arian sydd ar gael i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir at ddibenion adfywio seilwaith? (WAQ50581)

**Jane Hutt:** Mae Rhaglen Grant Cyfalaf Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn rhoi cymorth ariannol i sefydlu a chynnal cyfalaf ysgolion o'r fath mewn partneriaeth â llywodraethwyr yr ysgol a'r Awdurdodau Addysg Lleol. Mae'r cyfrifoldeb am ddarparu, atgyweirio a chynnal a chadw ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir wedi ei rannu rhwng llywodraethwyr yr ysgol a'r Awdurdodau Addysg Lleol. Ceir 162 o Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yng Nghymru.

Dyrennir £9.5m y flwyddyn ar gyfer rhaglen cyfalaf Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir. Yn gyffredinol, mae rhaglen gyfalaf Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir yn cefnogi 35 prosiect mawr gwerth £30m i gyd.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A** wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfanswm yr arian sydd ar gael i ysgolion y wladwriaeth at ddibenion adfywio seilwaith? (WAQ50582)

**Jane Hutt:** Mae'r arian blynyddol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion wedi cynyddu o £82m yn 2002-03 i £150m yn 2005-06, mae wedi cynyddu eto i £157m o 2007-08 a bydd yn parhau ar y lefel uwch hon tan 2010 o leiaf. Bydd lefelau'r cyllid ar ôl hynny yn ystyried y targedau a osodir i awdurdodau unigol yng ngoleuni eu hanghenion buddsoddi parhaus.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cyllid o £157.324m i gyd ar gyfer buddsoddi cyfalaf ysgolion ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys £60.933m o arian cyfalaf cyffredinol (GFC), £81.685m o grant gwella adeiladau ysgol (SBIG), £9.5m o gyfalaf ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir a chyfalaf Blynyddoedd Cynnar o £5.206m.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu dysgu Economeg y Cartref mewn ysgolion yng Nghymru? (WAQ50589)

**Jane Hutt:** Er nad yw Economeg y Cartref yn un o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol fel y cyfryw, mae bwyd a pharatoi bwyd ynghyd â thecstiliau yn rhan hanfodol o Ddylunio a Thechnoleg, sy'n orfodol i blant 7-14 oed. Yn y Gorchymyn Dylunio a Thechnoleg diwygiedig, a fydd yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2008 ymlaen, mae'r pwyslais ar fwyd ar gynllunio a pharatoi prydau a byrbrydau iach. Dylai dysgu am fwyd fel hyn helpu disgyblion i fwyta'n iachach mewn ysgolion. O ran tecstiliau, gall disgyblion gynllunio a gwneud eitemau megis dillad, dodrefn meddal a theganau.

Bydd fy adran yn cyhoeddi canllaw i ysgolion yn nhymor yr haf 2008 er mwyn helpu gyda phob agwedd ar y Gorchymyn Dylunio a Thechnoleg newydd, ynghyd â chanllaw penodol arall ar Fwyd a Ffitrwydd. Bydd y canllaw hwn yn diweddaru'r canllaw presennol Bwyd yng nghwricwlwm ysgolion yng Nghymru (2001), ac yn cysylltu gwaith sy'n gysylltiedig â bwyd a ffitrwydd yn un cyhoeddiad.

Gall dysgwyr 14 i 19 oed ddewis o nifer o gymwysterau i gael rhagor o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yn y meysydd hyn. Gellir dilyn Economeg y Cartref fel pwnc TGAU. Mae cymwysterau cysylltiedig eraill yn cynnwys TGAU mewn Dylunio a Thechnoleg, TGAU Arlwyo, Safon Uwch a Safon Uwch Gyfrannol mewn Dylunio a Thechnoleg ac amrywiaeth o gymwysterau NVQ ar wahanol lefelau.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn y Rhaglen Ysgolion Bro? (WAQ50595)

**Jane Hutt:** Bwriad agenda'r Ysgolion Bro yw darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau i ddiwallu anghenion yr ysgol a'r gymuned ehangach. Rhan annatod o'r bwriad hwn yw datblygu cymuned ddwyieithog lle caiff hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a'r iaith Gymraeg eu cydnabod a'u dathlu.
Yn gysylltiedig â hyn mae cynllun gweithredu Iaith Pawb Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n annog unigolion i ddysgu Cymraeg. Mae gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae o ran darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer pobl ifanc, oedolion a'r gymuned leol.
Wrth ddatblygu rhaglenni a phrosiectau'r Ysgolion Bro, bydd ysgolion, awdurdodau lleol a'u partneriaid yn ystyried y Gymraeg a'r angen i ddatblygu sgiliau'r Gymraeg ymhellach; mae enghreifftiau lle mae hyn yn digwydd yn cynnwys:

- Disgyblion yn cyfrannu i bapurau newydd a chylchgronau cymunedol Cymraeg;
- Sefydlu cylch chwarae newydd Cymraeg ei iaith;
- Cyfleoedd Dysgu y Tu Allan i Oriau'r Ysgol ar gyfer disgyblion sy'n dymuno adeiladu ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio brechlyn i reoli tafod glas yng Nghymru? (WAQ50596)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Yn ystod y 12 mis diwethaf mae'r Llywodraeth wedi bod yn adolygu, mewn partneriaeth â'r diwydiant, ei rHeoliadau ar y tafod glas er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â'r risgiau yn gymesur ac yn effeithiol. O dan Orchymyn y Tafod Glas (Cymru) 2003 (fel y'i diwygiwyd) caiff Llywodraeth Cynulliad Cymru awdurdodi'r broses o frechu anifeiliaid. Byddai'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar effeithiolrwydd y brechlynnau sydd ar gael, p'un a ydynt wedi'u trwyddedu i gael eu defnyddio o fewn yr UE a'r strategaeth ymadael a ragwelir.

Mae brechu wedi cael ei ystyried yn rhan o'r strategaeth reoli ond nid oes brechlyn ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y straen hwn o'r feirws tafod glas (BTV-8). Mae brechlyn yn cael ei ddatblygu a'r gobaith yw y bydd ar gael erbyn yr haf nesaf. Cyn i frechlyn gael ei ddefnyddio mae'n rhaid dangos ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'r Llywodraeth wrthi'n trafod gyda'r cwmnïau sy'n paratoi brechlynnau ac mae'n annog y gwaith hwn ac yn datblygu cynllun gyda'r diwydiant ynglŷn â sut y byddai ymgyrch brechlynnau yn gweithio. Mae'r sefyllfa yn nwyrain Lloegr yn achosi pryder ond nid yw'r tafod glas yn endemig yn y DU, pe bai hyn yn wir byddai'n rhaid i ni gael tystiolaeth o drosaeafu.

Ceir 24 seroteip o BTV. Nid ystyriwyd BTV 8 yn fwy o fygythiad i Ewrop na seroteipiau eraill tan y llynedd pan ddaeth y clefyd i mewn i ogledd Ewrop am y tro cyntaf. Gellir cael brechlynnau masnachol ar gyfer seroteipiau eraill h.y. rhai o'r seroteipiau sy'n ymledu drwy'r Canoldir. Mae 3 gweithgynhyrchydd yn datblygu brechlyn rhag BTV-8 ar hyn o bryd.

Ers cydnabod cysylltiad posibl rhwng achosion o Glwy'r Traed a'r Genau a'r safle yn Pirbright rhoddwyd mesurau diogelwch ychwanegol ar waith. Ers 4 Awst nid oes unrhyw ddefnydd o'r feirws byw yng nghyfleuster Merial. Mae hyn wedi golygu nad yw Merial wedi gallu bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu brechlyn tafod glas. Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r angen taer am y brechlyn ond o ystyried adolygiadau'r HSE a Spratt mae'n bwysig bod cyfleuster Merial yn gweithredu i'r safonau uchaf o ran bioddiogelwch. Cynhelir archwiliadau ar y safle felly ac os byddant yn foddhaol y gobaith yw y gellir defnyddio'r feirws byw yn ystod yr wythnosau nesaf a fydd yn galluogi Merial i ailddechrau ar y gwaith o ddatblygu brechlyn ar gyfer y tafod glas.

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr achosion TB ym mhob mis dros y ddwy flynedd diwethaf.? (WAQ50559)

**Elin Jones:** Mae nifer o ffactorau dylanwadol yn effeithio ar achosion TB mewn unrhyw fis penodol, gan gynnwys nifer y profion TB a gyflawnwyd. Fel y dengys y graff a atodir, na ellir canfod tueddiadau clir o ran nifer yr achosion newydd o TB, nifer yr achosion newydd o TB a gadarnhawyd neu nifer yr anifeiliaid a laddwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ganiatáu i aelodau'r gymuned anabledd dysgu gael rhagor o ymreolaeth dros eu trefniadau tai? (WAQ50555)

**Y Dirprwy Weinidog dros Dai (Jocelyn Davies):** Mae gennyf ddiddordeb bob amser mewn cynyddu ymreolaeth pobl sydd ag anabledd dysgu. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn:-

- Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol;
- Llywodraeth Leol,
- Y Sector gwirfoddol.

Mae'r agenda ar gyfer y gwaith hwn yn cynnwys:-

- Swyddogion o dîm y Polisi Tai â Chymorth yn gweithio gyda swyddogion o'r tîm polisi Anabledd Dysgu i nodi sut y dylai polisi tai a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru fynd i'r afael ag anghenion pobl sydd ag anabledd dysgu yn y dyfodol.
- Swyddogion o'r tîm Polisi Tai â Chymorth yn datblygu polisi yn dilyn ymweliadau ag awdurdodau lleol; nododd un o brif elfennau'r cyngor yn dilyn yr ymweliadau y dylai awdurdodau lleol ddatblygu polisïau ymgynghori a chyfranogi er mwyn galluogi pob tenant diamddiffyn i lywio datblygiad tai â chymorth.
- Nodi ffyrdd y gellir defnyddio adnoddau fwyaf effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl sydd ag anabledd dysgu ac anghenion tai â chymorth.

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o dai fforddiadwy sydd wedi cael eu hadeiladu yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ50588)

**Jocelyn Davies:** Fel ymateb i'ch cwestiwn, diffinnir tai fforddiadwy fel tai cymdeithasol a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol.
Rhwng 2002-03 a 2006-07, adeiladwyd 2,447 o anheddau gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol ledled Cymru.
Am ragor o wybodaeth cyfeiriwch at y cyhoeddiad adeiladu tai newydd chwarterol:
http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/theme/housing/newbuild/?lang=cy

**Nick Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y bydd angen i bolisi tai Cymru ei gynnwys er mwyn cyfuno fforddiadwyedd â chynaliadwyedd? (50594)

**Jocelyn Davies:** Mae adeiladu tai sy'n fwy cynaliadwy, yn gyffredinol, yn debygol o gynyddu costau adeiladu tai, er y dylai arbedion maint sicrhau bod y cynnydd cyn lleied â phosibl wrth i fwy o dai cynaliadwy gael eu hadeiladu. Dim ond un o'r elfennau sy'n cyfrannu tuag at gost prisiau tai yw costau adeiladu a pholisïau sy'n lleihau gwerth y tir yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o hyd o ran pennu prisiau gwerthu tai a gwneud tai yn fwy fforddiadwy.
Mae'r defnydd o ganiatadau cynllunio adran 106 gan lywodraeth leol a Llywodraeth y Cynulliad wrth gael gwared ar eu tir yn enghreifftiau o'r ffordd y gellir cyflawni hyn er mwyn gwella'r cyflenwad o dai fforddiadwy.
Bydd datblygu cartrefi sy'n arbed ynni, sy'n gynaliadwy ac o ansawdd gwell yn lleihau costau oes drwy ostwng biliau ynni a chostau cynnal a chadw. Bydd parhau â'r broses o ddatganoli rheoliadau adeiladu a datblygu safonau cynaliadwy uwch i bob cartref yng Nghymru yn sicrhau tegwch i'r diwydiant adeiladu tai yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog sicrhau y cymerir camau i sicrhau y caiff gwybodaeth am bolisïau codi tâl ei darparu i bobl sy'n derbyn gofal mewn iaith blaen a bod gweithdrefnau iawn ar waith i warantu hawl pobl i apelio? (WAQ50602)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gyfleu eu polisïau codi tâl i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae canllawiau presennol Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau o ran codi tâl am wasanaethau cymdeithasol yn nodi'r angen i egluro yn glir ac yn brydlon i ddefnyddwyr sut y mae unrhyw daliadau am eu gofal wedi cael eu hasesu a'u cyfrifo.

Gall defnyddwyr gwasanaethau gwyno am unrhyw agwedd ar unrhyw wasanaeth cymdeithasol y mae gan awdurdod y pŵer neu'r dyletswydd i'w ddarparu, gan gynnwys asesiadau o daliadau. Daeth rheoliadau newydd ar weithdrefn gwyno am wasanaethau cymdeithasol, "Gwrando a Dysgu", i rym ar 1 Ebrill 2006. Mae'r rhain yn nodi camau'r weithdrefn gwyno a chyfrifoldebau'r awdurdod lleol am ymdrin â chwynion. Mae'r weithdrefn yn cynnwys gwrandawiad gan banel sy'n annibynnol ar yr awdurdod fel trydydd cam.